OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 No. 1163

# Gorchymyn y Diwydiant Cyflenwi Trydan (Gwerthoedd Ardrethol) (Cymru) 2000

## RHAN II

## CYNHYRCHU TRYDAN

**Gwerth Ardrethol**

**5.**—(1) Mae erthygl 6 yn gymwys i ddosbarth ar hereditamentau y mae'r amodau ym mharagraff (2) wedi'u cyflawni yn eu cylch.

(2) Yr amodau a grybwyllir ym mharagraff (1) yw bod —

(a) yr hereditament yn cynnwys tir, peiriannau neu adeiladau a ddefnyddir at gynhyrchu trydan, neu sydd ar gael i gynhyrchu trydan a bod y defnydd hwnnw yn unig neu'n brif swyddogaeth yr hereditament a

(b) y peiriannau cynhyrchu naill ai —

(i) yn defnyddio pŵ er gwynt, llanw, neu ddŵ r fel eu prif ffynhonnell ynni; neu

(ii) a chanddynt allu cynhyrchu net a ddatgenir o 500 cilowat neu ragor.

(3) Wrth benderfynu ai cynhyrchu trydan yw prif swyddogaeth hereditament, rhaid peidio â chymryd sylw o hyn o wres a gynhyrchir yn yr hereditament neu arno ac a gynhyrchir at ddibenion nad ydynt yn ddibenion cynhyrchu trydan.

**6.**—(1) Yn achos hereditament sy'n dod o fewn y dosbarth a bennir yn erthygl 5, ni fydd paragraffau 2 i 2B o Atodlen 6 i'r Ddeddf(**1**) yn gymwys, a bydd ei werth ardrethol, yn ystod unrhyw flwyddyn, pan fydd effaith i'r rhestr berthnasol, yn swm cyfartal â'r swm cymwysadwy.

(2) Y "swm cymwysadwy" at ddibenion paragraff (1) yw'r swm fesul megawat o allu cynhyrchu net a ddatgenir o'r peiriannau cynhyrchu yn yr hereditament neu arno (wedi'i fynegi i'r ganfed ran agosaf o fegawat) wedi'i nodi yng ngholofn (2) o'r Tabl canlynol mewn perthynas â'r unig ffynhonnell ynni, neu'r brif ffynhonnell ynni, a ddefnyddir gan y peiriannau llywodraethu hynny a nodir yng ngholofn (1):

**TABL**

| **(1)**<br>**Unig neu brif ffynhonnell ynni** | **(2)**<br>**£ fesul megawat** |
|---|---|
| (i) Llosgi glo | 9,500 |
| (ii) Llosgi olew | 5,000 |

(**1**) Diwygiwyd baragraff 2 a mewnosodwyd paragraffau 2A a 2B gan baragraff 38(3) i (11) o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

| **(1)**<br>**Unig neu brif ffynhonnell ynni** | **(2)**<br>**£ fesul megawat** |
|---|---|
| (iii) Llosgi nwy naturiol pan ddefnyddir tyrbin ager | 9,500 |
| (iv) Llosgi nwy naturiol pan na ddefnyddir tyrbin ager | 5,000 |
| (v) Ymhollti Niwclear a gynhyrchir gan adweithydd Magnox | 6,000 |
| (vi) Ymhollti Niwclear na chynhyrchir gan adweithydd Magnox. | 14,000 |
| (vii) Pŵer Gwynt | 2,000 |
| (viii) Llosgi nwy o safleoedd tirlenwi | 5,000 |
| (ix) Llosgi cnydau a gwasarn anifeiliaid | 2,000 |
| (x) Dwr wedi'i gronni a'i bwmpio | 12,800 |
| (xi) Trydan dŵ r | 9,500 |
| (xii) Unrhyw ffynhonnell o ynni nas rhestrir uchod. | 2,000 |

(3) Yn yr erthygl hon ystyr “y rhestr berthnasol” yw'r rhestr ardrethu annomestig leol a luniwyd ar 1 Ebrill 2000.